**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/1672/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

26 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy ngohebiaeth dyddiedig 16 Mai, rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod wedi cael llythyr gan y Gwir Anrhydeddus Jesse Norman AS, y Gweinidog Gwladol yn gofyn am gytundeb ffurfiol gan Weinidogion Cymru i wneud Offeryn Statudol ("OS"), "Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau, Gwrthwynebiadau ac Ymchwiliadau) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2023" ("Rheolau 2023").

Rwyf wedi cytuno i Lywodraeth y DU wneud Rheolau 2023 a'u gosod. Bwriad Llywodraeth y DU yw gosod yr OS gerbron Senedd y DU ar 14 Gorffennaf 2023 gydag 11 Awst 2023 yn ddyddiad dod i rym.

Fel yr esboniwyd yn flaenorol, byddai Rheolau 2023 yn gwneud newidiadau i'r broses ar gyfer cyflwyno a phrosesu ceisiadau ar gyfer Gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 ("Deddf 1992"), fel y nodir yn Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 ("Rheolau 2006") a Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 2004 ("Rheolau 2004"). Bwriedir i'r newidiadau gael gwared ar y ddibyniaeth ar ddogfennau papur a'i gwneud yn bosibl defnyddio dulliau electronig o gyfathrebu a chyflwyno ceisiadau.

Mae Deddf 1992, gan fwyaf, yn Ddeddf sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud Gorchmynion sy'n ymwneud ag adeiladu neu weithredu rheilffyrdd, tramffyrdd a systemau trafnidiaeth cyfeiriedig eraill, neu faterion sy'n ategol i'r systemau trafnidiaeth hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud Gorchmynion sy'n ymwneud â gweithfeydd sy'n ymyrryd â hawliau mordwyo cyhoeddus.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff Gweinidogion Cymru arfer, ymhlith pethau eraill, y pŵer i wneud Gorchmynion o dan Ddeddf 1992 yng Nghymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (“Gorchymyn 1999”).

Rheolau 2006

Ni chafodd swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol, sef y pwerau perthnasol i wneud rheolau o dan adran 6, 7(4) a 10 o Ddeddf 1992, y gwneir Rheolau 2006 oddi tanynt, eu trosglwyddo gan Orchymyn 1999. Felly, nid oes gan Weinidogion Cymru'r gallu i ddiwygio na gwneud rheolau o dan y pwerau perthnasol i wneud rheolau.

Mae erthygl 5 ac Atodlen 2 i Orchymyn 1999 yn darparu mai dim ond gyda chytundeb Gweinidogion Cymru y gellir arfer y swyddogaethau hynny sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, i’r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Mae hyn yn cynnwys y pwerau perthnasol i wneud rheolau o dan Ddeddf 1992. Felly, mae’n ofynnol yn gyfreithiol cael cytundeb Gweinidogion Cymru cyn y gellir gwneud y newidiadau i Reolau 2006, fel y cynigir yn Rheolau 2023.

Rheolau 2004

Gwneir Rheolau 2004 o dan adran 9 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992 (“y TIA”). Mae adran 9(7) o’r TIA yn darparu, wrth gymhwyso adran 9 i ymchwiliadau a gynhelir yng Nghymru neu gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan, fod y pŵer i wneud rheolau yn is-adran (1) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (ac nid gan yr Arglwydd Ganghellor). O ganlyniad, bydd angen i unrhyw ddiwygiadau a wneir i Reolau 2004 mewn perthynas ag ymchwiliadau a gynhelir yng Nghymru gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan, gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn deddfu i wneud diwygiadau i Reolau 2004.

Mae Rheolau 2023 yn diwygio Rheolau 2006 a Rheolau 2004. Fodd bynnag, am y rhesymau sydd wedi’u manylu uchod, bydd y diwygiadau i Reolau 2004 yn gymwys o ran Lloegr yn unig. Bydd y diwygiadau i Reolau 2006 yn gymwys yng Nghymru a Lloegr.

Mae’r mân newidiadau arfaethedig i Reolau 2006 yn cyd-fynd ag agenda ehangach Llywodraeth Cymru i symleiddio’r prosesau cydsynio a byddai ganddynt fuddion amgylcheddol drwy ddileu’r angen i ddarparu dogfennau papur ar gyfer ceisiadau o dan Ddeddf 1992.

Nid oes gan Reolau 2023 oblygiadau ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change